**Y PWYLLGOR MATERION EWROPEAIDD AC ALLANOL**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad** | **20 Mawrth 2002** |
| **Amser** | **9.30am** |
| **Lleoliad** | **Ystafell Pwyllgora 3&4** |
| **Teitl** | **Adroddiad y Cadeirydd** |

**Diben**

1. Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am yr hyn sydd wedi digwydd ers y cyfarfod diwethaf.

**Argymhelliad**

2. Dylai'r Aelodau nodi cynnwys yr adroddiad hwn.

**Cefndir**

3. Cyfarfu'r Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol ddiwethaf ar ddydd Gwener 13 Chwefror 2002. Isod nodir y datblygiadau a fu ers hynny.

**Cyngor yr Undeb Ewropeaidd**

4. Ar 4 Mawrth, mynychodd Sue Essex, y Dirprwy Weinidog dros Faterion Gwledig, Diwylliant a'r Amgylchedd, gyfarfod Cyngor yr Amgylchedd gyda dirprwyaeth y DU ym Mrwsel. Protocol Kyoto ar newid yn yr hinsawdd oedd y prif bwnc trafod, a phenderfynwyd y byddai'r UE yn cadarnhau'r cytundeb cyn bo hir. Cyfarfu ar gyrion y Cyngor â M. J-P Verstringe, Cyfarwyddwr Cyffredinol dros dro Cyfarwyddiaeth yr Amgylchedd. Gwnaethant drafod materion amgylcheddol sydd o bwys i Gymru, a safbwynt y Comisiynau ar gynigion y Llywodraeth. Bu trafodaethau hefyd rhwng Ms Essex a Chanolfan Ewropeaidd Cymru ar hynt datblygu cynaliadawy.

**Ymweliadau gan Weinidogion**

**Ymweliad Gweinidog Addysg Gwlad y Basg**

5. Trefnodd Jane Davidson AC, y Gweinidog dros Addysg a Dysgu Gydol Oes, bod dirprwyaeth o Wlad y Basg yn ymweld â Chymru ar 13 a 14 Chwefror 2002. Anjeles Iztueta Azkeu, Gweinidog Addysg Gwlad y Basg, oedd yn arwain y ddirprwyaeth. Diben yr ymweliad oedd clywed eu profiadau o ddarparu addysg blynyddoedd cynnar yng Ngwlad y Basg, ac iddynt hwy ddysgu mwy am system addysg Cymru (yn arbennig y problemau ieithyddol a brofir). Roedd ganddynt hefyd ddiddordeb mewn addysg alwedigaethol, dysgu gydol oes a chyfnewid disgyblion/ athrawon. Hefyd, gwnaeth y ddirprwyaeth gwrdd â Jenny Randerson AC, y Gweinidog dros Ddiwylliant, Chwaraeon a'r Gymraeg.
6. Yn ystod eu hymweliad, aeth y ddirprwyaeth i Ysgol Feithrin Fairoak, Ysgol Gynradd Tongwynlais ac Ysgol Gyfun Llanharri. Gwnaethant hefyd gwrdd ag ACCAC, Estyn, Bwrdd yr Iaith Gymraeg, Mudiad Ysgolion Meithrin, Cymdeithas Cylchoedd Chwarae Cyn-ysgol Cymru a Chymdeithas Genedlaethol Gwarchod Plant.
7. Mae trefniadau wrth law i Jane Davidson AC ymweld â Gwlad y Basg yn ystod yr wythnos olaf ym mis Mai. Mae hi hefyd wedi cytuno i siarad mewn cynhadledd ynghylch yr her sy'n wynebu addysg dros y deng mlynedd nesaf yn yr Undeb Ewropeaidd, a drefnwyd gan y ddirprwyaeth ac a gynhelir yn San Sebastian ar 5/6 Gorffennaf. Bydd Jenny Randerson hefyd yn ymweld â Gwlad y Basg ar 9-12 Ebrill.

**Gwyl Lorient 2002 (Blwyddyn Cymru)**

8. Mynychodd Jenny Randerson AC lansiad swyddogol Gwyl Lorient 2002 (Blwyddyn Cymru) ar 15 Mawrth 2002 yn y Stade de France ym Mharis. Yn ystod ei hymweliad â Pharis, cyfarfu hefyd â'i chymheiriaid o Weinyddiaethau Chwaraeon a Diwylliant Ffrainc, a chynhaliodd ginio ganol dydd yn y Cyngor Prydeinig i groesawu newyddiadurwyr a Chymry blaenllaw sy'n gweithio yn Ffrainc.

**<u>Digwyddiadau Ewropeaidd</u>**

**Wythnos Cymru**

9. Trefnodd Canolfan Ewropeaidd Cymru (CEC) ei thrydedd "Wythnos Cymru" ym Mrwsel ar 25 Chwefror 2002. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau diwylliannol a chelfyddydol yn ystod yr wythnos.
10. Fel rhan o'r wythnos hon, mynychais dderbyniad wedi'i drefnu gan CEC yn y Senedd Ewropeaidd, Brwsel, ddydd Mercher 27 Chwefror. Siaradais innau yn ogystal â noddwr yr wythnos, sef Neil Kinnock, Dirprwy-Lywydd y Comisiwn Ewropeaidd. Yn ystod yr wythnos, lansiwyd bid Caerdydd i ddod yn Ddinas Diwylliant Ewrop yn 2008.
11. Mynychodd Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig, ginio yng Nghartref Llysgennad Prydain ym Mrwsel ddydd Gwener 1 Mawrth trwy wahoddiad Llysgennad y DU yng Ngwlad Belg. Y bwriad oedd hyrwyddo cig Cymru yn ystod "Wythnos Cymru". Gwnaeth y Comisiynydd

Neil Kinnock a phobl ddylanwadol eraill fynychu'r cinio.

**Cynhadledd Flynyddol Rhwydwaith Gwybodaeth Ewropeaidd Cymru**

12. Cynhaliodd Rhwydwaith Gwybodaeth Ewropeaidd Cymru ei thrydedd gynhadledd "Cyfathrebu Ewrop" ym Mharc Margam ar ddydd Gwener 22 Chwefror 2002. Roedd y siaradwyr gwadd yn cynnwys Eluned Morgan ASE, Y Gwir Anrhydeddus Peter Hain AS (Gweinidog dros Ewrop), Jonathan Faull, (Llefarydd Cyfarwyddwr Cyffredinol y Wasg a Chyfathrebu yn y Comisiwn Ewropeaidd) a Des Clifford (Cynulliad Cymru). Nod y gynhadledd oedd codi ymwybyddiaeth a hybu'r drafodaeth am yr Undeb Ewropeaidd yng Nghymru.

**Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd**

13. Cynhaliwyd Fforwm Cymru ar Faterion Ewropeaidd yn Llandudno ar 15 Chwefror. Trefnwyd y Fforwm ar y cyd â Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru a thrafodwyd y Papur Gwyn ar Lywodraethu Ewropeaidd. Mynychodd Jerome Vignon, Pennaeth Tîm Llywodraethu'r Comisiwn Ewropeaidd y cyfarfod a nododd bod y modd yr oedd y Cynulliad yn trafod y mater ac yn cynnwys y gymdeithas sifil yng Nghymru yn y drafodaeth honno, yn gwbl unigryw yn yr Undeb. Roedd Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru, Prifysgol Caerdydd, ELWa, TUC Cymru a BBC Cymru ymysg y rhai a gynrychiolwyd. Mynegwyd rhai safbwyntiau pwysig iawn yn y Fforwm, a byddant yn llywio'r ymateb terfynol a gyflwynir i'r Comisiwn ddiwedd mis Mawrth. Trafodir y mater ymhellach yn Eitem 3.

**Derbyniad Diwrnod Sain Padrig**

14. Ar 19 Mawrth, mynychais Dderbyniad Sain Padrig yn Nhy Brunel, Caerdydd a drefnwyd gan Gonswl Cyffredinol Iwerddon.

**<u>Materion Ehangu</u>**

**Y Gweithgor Ehangu**

15. Cyfarfu'r Gweithgor Ehangu am yr eildro ddydd Mercher 16 Ionawr 2002, a thrafodwyd casgliadau'r cyfarfod hwn yn y Pwyllgor diwethaf ym mis Chwefror. Ers hynny, cyflwynwyd papur gwybodaeth i'r Pwyllgor Datblygu Economaidd ar 6 Mawrth yn rhestru'r casgliadau hyn.
16. Cynhelir cyfarfod nesaf y Grwp ddydd Mercher 15 Mai 2002.

**Y Weriniaeth Tsiec**

17. Trefnir gêm bêl-droed gyfeillgar rhwng swyddogion Cynulliad Cymru a Llysgenhadaeth Gweriniaeth Tsiec i gyd-ddigwydd â'r gêm bêl-droed ryngwladol rhwng y ddwy wlad ar ddydd Mercher 27 Mawrth. Bydd y gêm yn cael ei chynnal brynhawn 27 Mawrth – disgwylir i'r

manylion gael eu cadarnhau.

18. Bydd Ei Ardderchowgrwydd Pavel Seifter, Llysgennad y Weriniaeth Tsiec, yn mynychu'r gêm ryngwladol yn Stadiwm y Mileniwm. Hwn fydd trydydd ymweliad y Llysgennad â Chymru o fewn blwyddyn – a'i nod yw datblygu'r cysylltiadau rhwng Cymru a'r Weriniaeth Tsiec.

**Ymweliad o Slofenia**

19. O dan ysgogiad a nawdd yr Undeb Rhyng-Seneddol, ymwelodd grwp drawsbleidiol o chwech AS o Slofenia â'r Cynulliad Cenedlaethol fel rhan o'u taith astudio ledled y DU. Roedd taith o gwmpas y Cynulliad a chinio â'r Aelodau yn rhan o'r ymweliad. Gwnaethant gais penodol i weld sut y gwnaeth y DU ymdrin â Chlwy'r Traed a'r Genau. Hwyluswyd hyn drwy drefnu cyfarfod â Phrif Swyddog Milfeddygol Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig, a oedd hefyd yn cynnwys ymweliad â fferm a ddioddefodd yr haint.

## Digwyddiadau/Ymweliadau Allanol

**Ymweliad ag Efrog Newydd ar Ddydd Gwyl Dewi**

20. Ar 26 Chwefror, mynychais dderbyniad yn Regent's Park Llundain, a drefnwyd gan William Farish, Llysgennad Unol Daleithiau America. Y diwrnod dilynol gwnaethom gyfarfod yn Llysgenhadaeth yr Unol Daleithiau yn Llundain i drafod nifer o faterion ynghylch y berthynas rhwng Cymru ac America.
21. Rhwng 1-3 Mawrth, ymwelais ag Efrog Newydd ar gyfer cyfres o ddigwyddiadau i ddathlu Dydd Gwyl Dewi a hyrwyddo Cymru at bwrpas twristiaeth, masnach, mewnfuddsoddi, addysg uwch, ffilm a dibenion diwylliannol. Tra'r oeddwn yno, cyhoeddais sefydlu nifer o Ganolfannau aml-bwrpas Rhyngwladol Cymru a fydd, ymhen amser, yn rhoi ffocws i wasanaethau busnes ac yn bresenoldeb Cymreig gweledol o dan nawdd Llywodraeth y Cynulliad, mewn nifer o fannau allweddol ar draws y byd. Bydd y cyntaf o'r rhan yn Efrog Newydd a disgwylir ei hagor ym mis Medi.

**Dirprwyaeth Senedd Namibia**

22. Ymwelodd dirprwyaeth o Senedd Namibia â'r Cynulliad rhwng 6-8 Mawrth. Roedd y ddirprwyaeth yn cynnwys, ymysg eraill, yr Anrhydeddus Kandi Nehova, Cadeirydd y Cyngor Cenedlaethol sydd hefyd yn Gadeirydd Cymdeithas Seneddau'r y Gymanwlad (CPA), a'i wraig Mrs Shaduka Nehova. Nod yr ymweliad oedd i ddirprwyaeth Namibia gael deall sut mae'r

Cynulliad yn gweithio a chwrdd â chynrychiolwyr o Gangen Weithredol y CPA, gan mai Namibia sy'n cynnal Cynhadledd CPA 2002.

23. Ddydd Mercher 6 Mawrth, cyfarfûm â'r ddirprwyaeth a'r un noson mynychais ginio er anrhydeddu'r CPA yng Ngwesty'r Park Thistle, Caerdydd.

**Cymdeithas Rhyng-Seneddol y DU a Chanada**

24. Ar gais y Swyddfa Dramor a'r Gymanwlad (FCO), a chyda'i nawdd, ymwelodd dirprwyaeth o 12 o gynrychiolwyr o ddau dy Seneddol Canada â'r Cynulliad ar 14 Chwefror fel rhan o'i hymweliad â'r DU, a oedd hefyd yn cynnwys treulio amser yn San Steffan a Chaeredin. Roedd yr ymweliad â'r Cynulliad yn cynnwys cinio â'r Llywydd, taith o gwmpas y Cynulliad a chyfarfodydd â swyddogion o'r Cofnod a'r Gwasanaeth Cyfieithu.

**Senedd Teyrnas Lesotho**

25. Ymwelodd tri Seneddwr ac un swyddog â'r Cynulliad dros gyfnod o dri diwrnod fel rhan o ymweliad ar y cyd a drefnwyd gan Gymdeithas Seneddau'r Gymanwlad a Swyddfa'r Llywydd. Roedd yr ymweliad yn cynnwys cyfarfodydd ag Aelodau a swyddogion, Pwyllgor Gwaith y CPA, cynrychiolwyr Dolen Cymru, Is-Gennad Mygedol Lesotho a'r Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol. Trefnwyd y cyfarfod yn sgil ffurfio nifer o gysylltiadau blaenorol trwy'r CPA. Bydd Lesotho'n cynnal etholiad ar gyfer ei Gynulliad Cenedlaethol ym mis Mai. Bydd yr etholiadau'n cynyddu'r gynrychiolaeth o 80 i 120 aelod, ac am y tro cyntaf bydd 40 aelod yn cael eu hethol ar sail cynrychiolaeth gyfrannol. Mae'r ymweliad wedi galluogi'r ddirprwyaeth i wneud astudiaeth gymharol er mwyn paratoi ar gyfer cyfnod o newid.

**Senedd Daleithiol Ontario**

26. Trefnwyd yr ymweliad ar gais Senedd Ontario. Roedd yr ymweliad â'r Cynulliad yn rhan o daith astudio ehangach o'r DU ar gyfer saith aelod o'r Senedd Daleithiol ac un swyddog o'r Pwyllgor Deddfwriaeth. Ymweliad oedd hwn i gymharu a chyferbynnu'r gweithdrefnau er mwyn adolygu gwasanaethau'r ty. Roedd yr ymweliad yn cynnwys sesiwn rhyngweithiol gyda'r Pwyllgor Deddfau, lle y gwnaeth y ddwy ochr gael goleuni pellach ar ddulliau gwaith ei gilydd.

## <u>Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol</u>

27. Yn rhinwedd fy swydd fel Prif Weinidog, cysylltodd Cynhadledd y Rhanbarthau Ymylol ac Arfordirol â mi ynghylch cyfarfod nesaf Aelodau'r DU. Rhoddais wahoddiad i grwp aelodau'r DU i gynnal eu cyfarfod nesaf yng Nghaerdydd. Serch hynny, gwnaethpwyd trefniadau eisoes i

gynnal y cyfarfod ar Ynys Wyth, ond gobeithiaf weld y grwp yn cyfarfod yng Nghymru yn y dyfodol. Mae swyddogion wrthi'n ystyried sut y gallwn wneud y mwyaf o'n haelodaeth o'r rhwydwaith Ewropeaidd ddylanwadol hon: byddaf yn trafod hyn yng nghyfarfod y Pwyllgor Ewropeaidd a Materion Allanol yn y dyfodol.

**Cydymffurfio**

28. Sefydlwyd y Pwyllgor dan Reol Sefydlog 15. Mae Adran 33 o Ddeddf Llywodraeth Cymru (a ddirprwywyd i'r Prif Weinidog) yn galluogi'r Cynulliad i ystyried a gwneud cynigion priodol ynghylch unrhyw fater sy'n effeithio ar Gymru. Cysylltwyd â Swyddfa Gydymffurfiaeth y Cynulliad ac mae'n fodlon â'r agweddau cydymffurfio.

**Goblygiadau Ariannol**

29. Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol i'r Cynulliad yn codi o'r materion a drafodwyd yn yr adroddiad hwn.

**Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol 1**